

... --- -.-. .-. .-. .-. .-. .-. .-. .-. .-

Nid yw ein Côt yn gyfrinach

**Ydych chi'n gwybod am y Côt Ymarfer
Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yng Nghymru?**

Mae'n gosod y safonau sy'n rhaid i bob gweithiwr
gofal cymdeithasol weithio i, er mwyn darparu'r
gwasanaethau gofal gorau i chi.

Beth ddylech chi a'ch teulu ei ddisgwyl gan weithwyr gofal cymdeithasol

Disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnoch i fyw eich bywyd yn y ffordd yr ydych chi ei eisiau.

Byddant yn gweithio mewn partneriaeth gyda chi a'ch teulu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, bod gennych ddewis ynghylch y math o ofal a chymorth rydych yn ei gael a rheolaeth dros y ffordd yr ydych yn ei dderbyn.

Mae gan Gymru y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côt).

Gweithwyr gofal sy'n ymweld â chi gartref, gweithwyr gofal cartref i oedolion, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal preswyl i blant a myfyrwyr gwaith cymdeithasol - maent i gyd yn gweithio i'r safonau a nodir yn y Côt.

Er mwyn helpu i sicrhau bod gan yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru'r sgiliau a'r wybodaeth i weithio at y Côt, mae Cyngor Gofal Cymru wedi cynhyrchu ystod o ddeunyddiau hyfforddi ac yn cynnal ymgyrch i'w hannog i gyd i Ofalu â Balchder.

Mae hyn yn golygu y dylech deimlo'n hyderus am y gofal a'r gefnogaeth a gewch.



Geraint, sy'n weithiwr gofal cymdeithasol, oedd y cyntaf i gwblhau hyfforddiant 'Gofalu â Balchder'.

Yr hyn y mae'r Côt yn ei ddweud

Er mwyn darparu'r gofal gorau ar eich cyfer, rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

- Barchu eich barn a rhoi eich anghenion yn gyntaf.
- Ennill eich ymddiriedolaeth a hyder.
- Eich helpu i fod yn ddiogel ac iach.
- Barchu eich hawliau wrth gadw chi a phobl eraill yn ddiogel.
- Fod yn onest gyda chi.
- Wneud yn siŵr bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i wneud eu gwaith yn dda.



Beth i'w wneud os ydych yn teimlo nad ydych chi neu eich teulu yn derbyn y safon yma o ofal

Os ydych yn teimlo nad ydych yn derbyn y safon iawn o ofal a chefnogaeth yna dylech:

- Ddarllen drwy'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol www.cgcyrmru.org.uk/cod.
- Siarad â chyflogwr eich gweithiwr gofal cymdeithasol, gan rannu eich pryderon nad yw y Côt Ymarfer Proffesiynol yn cael ei gyflawni a gofyn iddynt sut y byddant yn delio â'ch pryderon.
- Os ydych dal i fod yn anfodlon ac nad yw eich pryderon wedi cael eu datrys, gofynnwch am gopi o'u polisi cwyno er mwyn gwybod beth i'w wneud nesaf.
- Os ydych dal yn bryderus a bod y gweithiwr wedi'i gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru, gallwch gysylltu â'n tîm Addasrwydd i Ymarfer.
- Os ydych yn pryderu am safon y gofal a ddarperir gan gwmni neu sefydliad, cysylltwch â'r Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cssiw.org.uk.



I gael gwybod mwy am y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Mae copïau o'r Côt, yn ogystal â fersiynau hawdd i'w ddarllen a phobl ifanc i'w gweld ar:

www.cgymru.org.uk/cod

Neu cysylltwch â Chyngor Gofal Cymru ar **0300 30 33 444**.

Dewis gofal

Mae'r Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rhoi arweiniad ar ddewis gwasanaethau gofal os ydych yn chwilio am wasanaeth gofal i chi neu aelod o'ch teulu:

<http://cssiw.org.uk/find-a-care-service/choosing-a-service>

Pa weithwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Gofal?

- Gweithwyr cymdeithasol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol.
- Rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant.
- Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion.
- Rheolwyr gofal cartref.

O 2020, bydd angen i bob gweithiwr gofal cartref i gofrestru gyda gweithwyr gofal preswyl i oedolion i ddilyn yn 2022.

Mae ein Cofrestr yn sicrhau bod gweithwyr:

- yn addas ar gyfer gwaith;
- o gymeriad da;
- gyda'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt; ac
- yn cytuno i gydymffurfio â'n Côt Ymarfer Proffesiynol.